Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

# Adroddiad Blynyddol

## Ebrill 2023 - Mawrth 2024

### Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau



ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl our national mission

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynnwys


03 Amdanom Ni

04 Datganiad gan y Prif Weithredwr

05 Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd

06 Sicrhau Ansawdd ac Arloesedd

07 Arweinyddiaeth System Phencampwyr Cyrhaeddiad

08 Ein Cymdeithion

12 Datblygu Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu

13 Mewnweledial, Lles a Datblygu'r Gweithlu

14 Partneriaethau

15 Cymraeg 2050 a Gwrth-Hiliaeth

16 Datganiadau Ariannol




# Amdanom Ni

Cenhadaeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yw “Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau” gyda'r nod o sicrhau arweinyddiaeth addysgol glir a chydlynol yng Nghymru. Drwy ein gwaith, byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu manteisio ar y dysgu proffesiynol mwyaf perthnasol, ystyrlon ac ysbrydoledig.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi'i seilio ar weledigaeth gref, gyda chyfres o werthoedd ac egwyddorion craidd sydd wedi'u datblygu ar y cyd gan y sector yn sail iddi. Wrth wraidd y weledigaeth hon mae ymrwymiad i sicrhau bod gan bob arweinydd yn y system addysg fynediad at gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o safon uchel sy'n diwallu eu hanghenion lle bynnag y maen nhw, pa bynnag gam y maen nhw arni yn eu gyrfa a beth bynnag fo'u huchelgeis. Rydym yn canolbwyntio ar alluogi arweinyddiaeth dysgu ac rydym yn dangos hyn drwy ymgorffori ein gwerthoedd ym mhopeth a wnawn.

**CYDWEITHREDOL**
Fel sefydliad bach, ni fyddwn yn cyflawni dim drwy weithio ar ein pennau ein hunain. Yn hytrach, partneriaethau agos gyda'r proffesiwn a chyda'n sefydliadau cymheiriaid yn yr haen ganol fydd ein dull diofyn o weithio

**CYNHWYSOL**
Byddwn yn gweithio gydag ac ar ran yr holl arweinwyr addysgol, beth bynnag fo'u lleoliad, sector, cyfnod gyrfa, cefndir daearyddol ac a oes ganddynt rôl arweinyddiaeth ffurfiol neu anffurfiol

**SEFYDLIAD SY'N DYSGU**
Byddwn yn adolygu ein gwaith gan ddefnyddio Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth a byddwn yn addasu ein hymagwedd strategol, ffyrdd o weithio a dyrannu adnoddau i adlewyrchu heriau a chyfleoedd newydd




**CYMRAEG 2050**
Byddwn yn gweithio gyda ac ar ran Cymru gyfan i helpu i gyflawni Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**O DDIFRIF AM LES**
Mae arweinyddiaeth effeithiol yn ffynnu pan gefnogir lles. Byddwn yn blaenoriaethu lles pob gweithiwr proffesiynol, gan gynnwys ein staff ein hunain a'n Cymdeithion

**CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith ein hunain ac yn y ffordd yr ydym yn ceisio dylanwadu ar waith eraill. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol

**SEFYDLIAD SY'N GWRANDO**
Mae clywed a gwrando ar lais arweinyddiaeth addysgol wrth galon ein gwaith

**Sicrhau Ansawdd**
Mae pob arweinydd yn manteisio ar amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol arloesol teg ac o ansawdd uchel

**Arloesedd**
Mae arweinwyr addysgol yn creu a chynnal diwylliant arloesi gwirioneddol, gan arloesi gyda dulliau

**Arweinyddiaeth System**
Mae arweinyddiaeth system effeithiol yn sbarduno hunan-welliant

**Datblygu Arweinyddiaeth**
Mae arweinwyr yn cael eu grymuso, eu hysbrydoli a'u cymell

**Adnoddau**
Mae adnoddau arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy'n benodol i Gymru, wedi'u llywio gan y dystiolaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol, yn helpu gweithwyr proffesiynol i herio a gwella eu dulliau eu hunain o arwain yn barhaus

**Mewnweledial**
Mae polisi ac ymarfer arweinyddiaeth wedi'i wreiddio ac yn cael ei lywio'n uniongyrchol gan ymchwil a thystiolaeth o Gymru a gwledydd eraill

**Lles**
Mae lles arweinwyr yn cael ei flaenoriaethu a'i gefnogi'n systematig, gan greu gweithlu arweinyddiaeth cynaliadwy a gwydn a all fod yn sbardun allweddol ar gyfer newid systemig parhaus

**Datblygu Gweithlu Strategol**
Mae rolau arwain yn ddeniadol ac arweinwyr yn cael eu hysgogi i aros a datblygu yn y proffesiwn

# Datganiad gan y Prif Weithredwr



**Mae'n bleser cael rhannu fy sylwadau ar waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol fel rhan o Adroddiad Blynyddol 2023-2024.**

Rydym wedi parhau i weithio mewn dull hybrid, gyda threfniadau gweithio gartref ar gael yn ddi-ofyn i'n cyflogeion. Rydym wedi cydnabod yr angen am hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac mae'r trefniant hwn yn ein galluogi i feithrin diwylliant o gydweithio ac arloesi o fewn y sefydliad yn ogystal â chyda'n harweinwyr addysgol ledled Cymru.

Yn ystod 2023-2024, fe wnaethom barhau i gynnal digwyddiadau ar-lein gan gynnig gwerth anhygoel wrth greu profiadau cynhwysol a difyr i gyfranogwyr. Mae'r dull hwn o gynnal digwyddiadau wedi dod yn gynyddol bwysig yn ein tirwedd ddigidol sy'n esblygu'n barhaus, gan alluogi cyfranogwyr i ymuno o unrhyw le yng Nghymru, a'r byd yn wir, a dileu rhwystrau costau teithio a llety. Mae ein cynadleddau ar-lein wedi bod yn uchafbwyntiau arbennig a chynhaliwyd ein trydedd cynhadledd Lles ar-lein ym mis Ionawr 2024, a oedd unwaith eto'n pwysleisio pa mor bwysig yw blaenoriaethu lles ein harweinwyr addysgol.

Mae yna hefyd fanteision unigryw i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb na ellir eu cael yn rhithwir, gan fod rhyngweithio personol yn meithrin cysylltiadau dyfnach, cyfleoedd rhwydweithio a thrafodaethau digymell. Ym mis Medi 2023, cynullwyd chweched garfan o Gymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Roedd yr egni a'r ymgysylltu a ddaeth yn sgil y ffaith bod y Cymdeithion yno'n bresennol yn gwella'r profiad dysgu ac yn darparu platfform ar gyfer cyfathrebu rhyngbersonol, gan alluogi'r Cymdeithion i gyfnewid syniadau, cydweithio a meithrin perthnasoedd. Mae'r garfan ddiweddaraf hon o Gymdeithion yn cynrychioli tirwedd ddaearyddol Cymru ac yn cynnwys ystod o sectorau addysgol gan gynnwys ysgolion, gwaith ieuenctid ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i dyfu ac aeddfedu, ac eleni croesawyd aelod newydd i'r tîm, Meleri Light, Pennaeth y Gymraeg. Mae'n gyfnod cyffrous i fyd addysg ac mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn falch o gefnogi arweinwyr o bob sector addysg.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru am barhau i hyrwyddo rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth addysgol ac am gyfoethogi bywydau ein dysgwyr.

**Tegwen Ellis, Prif Weithredwr**



# Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd



**Yn dilyn blwyddyn arall o weithgarwch llwyddiannus, rwy'n falch, fel Cadeirydd, o gael myfyrio ar y gwaith helaeth a wnaed gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.**

Yn ystod ei seithfed flwyddyn, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi parhau i gynnal ei gwerthoedd, ei hegwyddorion a'i gweledigaeth graidd wrth gefnogi arweinwyr yn y system addysg. Fel Prif Weithredwr, mae Tegwen Ellis yn arwain ac yn cefnogi'r tîm o staff a'r Cymdeithion yn effeithiol, yn ogystal â hyrwyddo a chynyddu gweleededd y sefydliad ar draws a thu hwnt i Gymru. Wrth gynllunio a datblygu polisïau gyda'i thîm, mae hi'n sicrhau lles yr holl staff dan sylw, ynghyd â lles arweinwyr addysgol ledled Cymru.

Mae'r model gweithio hybrid wedi bod yn elfen lwyddiannus o weithgarwch yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yn enwedig y digwyddiadau ar-lein sy'n golygu bod pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt yn gallu cymryd rhan – gan ymestyn cyrhaeddiad y sefydliad unwaith eto. Mae'r digwyddiadau wedi canolbwyntio ar amryw o bynciau, gyda mewnbwn gan siaradwyr ac ymarferwyr hynod wybodus mewn meysydd sy'n ymwneud ag addysg a gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi cynyddu cyfleoedd rhwydweithio. Mae'r Cymdeithion yn parhau i gynrychioli sectorau amrywiol addysg yng Nghymru gan gynnwys y sector Gwaith Ieuenctid a'r sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

Rwy'n teimlo'n freintiedig ac yn ddiolchgar i mi gael cefnogaeth lawn holl aelodau'r Bwrdd o ran sicrhau bod gweithgarwch gweithredol yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol. Mae aelodau'r Bwrdd yn hyderus bod yr holl weithgarwch sy'n digwydd yn cyd-fynd â'r ymarfer, ac yn ymateb iddo. Mae'r holl ddarpariaeth a gymeradwyir gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i fod o ansawdd sicr yn sgil prosesau cadarn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Prif Weithredwr a'r tîm o staff sy'n dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb yn ddi-flino yn eu gwaith, gan sicrhau eu bod yn cynnal pwrpas yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol sef **Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau.**

**Dr Sue Davies, Cadeirydd y Bwrdd**

## Sicrhau Ansawdd

Rhan o'n cylch gwaith craidd gan Lywodraeth Cymru yw darparu cydlyniant a sicrhau ansawdd yr ystod o ddarpariaeth arweinyddiaeth sydd ar gael yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn drwy ein proses gymeradwyo a monitro dan arweiniad 'cymheiriaid'. Mae ystod eang o ddarpariaeth wedi cael ei chymeradwyo ac i'w gweld ar ein gwefan ac yn ein e-brosbectws.

Yn ystod 2023-2024, derbyniwyd wyth cais am gymeradwyaeth a chymeradwywyd pump ohonynt:

- Impact in Learning – Arwain Ymgysylltu â Rhieni
- Aspire2be – ILM ar gyfer Addysgwyr ac Arwain Trawsnewid Digidol
- Rethinking Education – Making Change Stick
- Consortia Rhanbarthol yng Nghymru – Datblygu Strategol a Gwerthuso'r Gymraeg

Cafodd pob darpariaeth arall ei monitro drwy broses dan arweiniad 'cymheiriaid' a chadwodd pob un ei statws cymeradwy.

**"Roedd y broses gymeradwyo yn broses gynhwysfawr a thrwyadl a oedd wir yn gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd ein darpariaeth. Roedd yr asesiad yn cynnwys adolygiad trylwyr o'n cynnwys, ein dulliau cyflwyno a'n heffaith, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf."**

## Arloesedd

Mae meddwl a gweithredu'n arloesol yn hanfodol ar gyfer system sy'n gwella'i hunan, ac rydym yn cefnogi arweinwyr i hyrwyddo cydweithio ac arloesedd drwy ein Cronfa Llwybr Arloesedd. Eleni, rydym wedi cefnogi 14 o sefydliadau gyda'u prosiectau arloesi:

- Estyn – Rhaglen datblygu sgiliau arweinyddiaeth ac arolygu addysg ar gyfer darpar arweinwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Swansea MAD – Hyfforddiant i arweinwyr ar gyllid ac arian: cefnogi sector gwaith ieuenctid gwirfoddol cynaliadwy a chadarn
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) – Sgiliau hwyluso ar gyfer arweinwyr
- Pro-Mo Cymru – Arwain Cynefin – Ysgolion Bro, y Cwricwlwm i Gymru a Sefydliadau Cymunedol/ Ieuenctid
- CSA Centre – Person diogelu dynodedig – adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd – Mwyafrif Byd-eang – O Athro i Bennaeth
- Ysgol Gynradd San Tomos – Cymryd rheolaeth o'n lles – sefydlu cronfa cymorth gan gymheiriaid ar gyfer penaethiaid ysgolion cynradd yn Abertawe
- Ffa-la-la – Hwyliaith a Hwyliaith Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Chrysalis Mindset Coaching – Leading Self – rhaglen twf personol
- Ysgol Gynradd Oak Field – Datblygu hyrwyddwyr arweinwyr system Big Bocs Bwyd
- Yr Athro Andy Penaluna – Addysgeg Arloesol (Pontio)
- Arwain rhuglder rhifau– rhagori gyda rhifau
- Nant Caerau – ymchwiliad arwain
- Cyngor Sir Caerdydd – Darpar Benaethiaid

Yn ystod 2023-24, mae cyllid Llwybr Arloesedd hefyd wedi'i ddyrannu i'r Ffederasiwn Cymdeithion gyda'r nod o ddatblygu'r tri maes ffocws canlynol: datblygu protocol i rieni, ysgolion yn cefnogi ysgolion mewn system hunanwella, a chymuned iechyd meddwl a lles meddyliol ysgolion Carnegie Cymru.

## Arweinyddiaeth System

Gwyddom fod arweinyddiaeth system effeithiol yn gyrru hunanwelliant gyda gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac arwain y tu hwnt i'w sefydliad, rhwng haenau ac ar draws sectorau. Mae gennym bellach sawl carfan o Gymdeithion yn symud drwy fodel arweinyddiaeth system aeddfed ac maen nhw'n cael dylanwad mesuradwy ar y system addysg y tu hwnt i'w sefydliadau eu hunain drwy Hwyluso; Eirioli; Ymgyrchu; Porthgadw; Galluogedd ar gyfer newid; Gweithredu; Gwella. Nodwyd hyn ym mhapur Cyfres Mewnwelediad yr Athro Alma Harris: Arweinwyr Systemau ac Arweinyddiaeth Systemau: Adolygu'r Dystiolaeth.

Mae'r Cymdeithion yn parhau i weithredu fel llais y proffesiwn, llywio ein gwaith a darparu cynrychiolaeth mewn rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac ar weithgorau Llywodraeth Cymru. Yn ystod 2023-2024, cafodd ein chweched garfan o Gymdeithion ei recriwtio, gydag arweinwyr o leoliadau amrywiol yn cynnwys y sectorau Cynradd ac Uwchradd, Cyfrwng Gymraeg, Ysgolion Arbennig, Gwaith Ieuenctid ac Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

Mae ymholiad cydweithredol y Cymdeithion yn parhau i fod yn ffocws i'w gweithgarwch gan lywio a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Mae Carfan 5 wedi cwblhau ei gwaith comisiwn yn ystyried Lles Arweinwyr a Galluogwyr Arweinyddiaeth Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae Carfan 6 wedi dechrau ei gwaith comisiwn yn ystyried Arwain Sefydliad Gwrth-hiliol ac Arwain Hunanwerthuso a Gwella. Dyma'r gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Sefydlwyd y Ffederasiwn Cymdeithion yn 2023-24 gydag aelodau o Garfanau 1, 2, 3 a 4. Mae'r Ffederasiwn Cymdeithion wedi dechrau ei gwaith yn ystyried rhai blaenoriaethau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys protocol cyfathrebu â theuluoedd, cymuned llesiant cenedlaethol, recriwtio a chadw.

## Pencampwyr Cyrhaeddiad

Mae'r cynllun peilot Pencampwyr Cyrhaeddiad wedi symud i gam dau, gan recriwtio ysgolion newydd i weithio gyda'r Pencampwyr Cyrhaeddiad penodedig. Mae'r model cymheiriaid cenedlaethol hwn ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn cynnwys cymheiriaid yn gweithio mewn trioedd i ddatblygu dulliau llwyddiannus o fynd i'r afael â chyrhaeddiad a bydd yn weithgaredd allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**"Mae'r prosiect Pencampwyr Cyrhaeddiad yn dangos pŵer cydweithio a rhannu arferion gorau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr. Cymerodd ysgolion ran mewn strategaethau arloesol, dysgu proffesiynol, a mentrau cenedlaethol a ddangosodd arwyddion cychwynnol o effaith gadarnhaol."**

# Cymdeithion

## Carfan 5

**Dewi Wyn Hughes**
**01.** Ysgol Gwynedd, Y Fflint CH6 5NF

**Geraldine Foley**
**02.** Ysgol Gynradd Marlborough, Caerdydd CF23 5BU

**Margaret Davies**
**03.** Ysgol Arbennig Sant Christopher, Wrecsam LL13 7BW

**Bryony Evett Hackfort**
**04.** Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, Llanelli SA15 4DN

**Mike Cameron**
**05.** Ysgol Gymunedol Tonyrefail, Porth CF39 8HG

**Russ Dwyer**
**06.** Ysgol Gynradd Gymunedol San Tomos, Abertawe SA1 8EZ

**Marco Gil-Cervantes**
**07.** ProMo-Cymru, Caerdydd CF10 5EP

**Penny Ellwood**
**08.** Ysgol Maelor, Wrecsam LL13 0LU

**Owain Roberts**
**09.** Ysgol Cybi, Caergybi LL65 1NS

**Alison Williams**
**10.** Ysgol Gynradd Craigfelen, Clydach SA6 5DP

**Siân Thomas**
**11.** Ysgol Woodlands, Caerdydd CF5 5AQ

**Richard Hatwood**
**12.** Ysgol yr Holl Saint, Wrecsam LL12 8RW

**Helen Jones**
**13.** Ysgol Maesteg, Maesteg CF34 0LQ

**Claire Rayner**
**14.** Ysgol Min y Ddol, Wrecsam LL14 3PA

**Catrin Coulthard**
**15.** Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8LU

**Owain Jones**
**16.** Ysgol Gyfun Aberaeron, Aberaeron SA46 0DP

## Carfan 6

**Martin Evans**
**17.** Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe, Castell-nedd SA8 4JX

**Siân Ross**
**18.** Ysgol y Plas, Bae Colwyn LL29 8YY

**Rhys Buckley**
**19.** Ysgol Gynradd Bro Cleddau, Hwlffordd SA62 4NG

**Nick Allen**
**20.** Ysgol Gynradd Gymunedol Saundersfoot, Saundersfoot SA69 9HB

**Melanie Ryan**
**21.** Youth Cymru, Pontypridd CF37 5BP

**Matthew Dunn**
**22.** Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant, Y Barri CF63 1BL

**Loren Henry**
**23.** Urban Circle, Casnewydd NP20 2BP

**Karl Lawson**
**24.** Ysgol John Bright, Llandudno LL30 1LF

**Dawn Spence**
**25.** Partneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Gogledd, Ddwyrain Cymru, Yr Wyddgrug CH7 6NR

**David Thomas**
**26.** Ysgol Gynradd Portmead, Blaen-y-Maes SA5 5LA

**Trystan Edwards**
**27.** Ysgol Garth Olwg, Pontypridd CF38 1DX

**Anna Griggs**
**28.** Ysgol Gynradd Buttington Trewern, Y Trallwng SY21 8TB

**Emma Davies**
**29.** Coleg Sir Benfro, Hwlffordd SA61 1SZ

**Adele Slinn**
**30.** Ysgol Bryn Alyn, Wrecsam LL11 4HB

**Aaron Ellis**
**31.** Ysgol Y Deri, Y Barri CF62 8NA

## Ffederasiwn y Cymdeithion

**Gayle Shenton**
**32.** Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd, Castell-nedd SA11 3AL

**Jayne Woolcock**
**33.** Tîm Gwella Ysgolion Cyngor Abertawe, Abertawe SA4 9DB

**Rhian Milton**
**34.** Ysgol Gynradd Tregatwg, Y Barri CF63 2JS

**Rebecca Turner**
**35.** Ysgol Acrefair, Wrecsam LL14 3SH

**Noel Fitzgerald**
**36.** Ysgol Pen Coch, Y Fflint CH6 5DL

**Mair Hughes**
**37.** Ysgol Penglais, Aberystwyth SY23 3AW

**Gavin Gibbs**
**38.** Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen, Torfaen NP44 1AN

**Joanne Cueto**
**39.** Ysgol Gynradd Maendy, Casnewydd NP19 0AP

**Claire Williams**
**40.** Ysgol Gynradd Glan Usk, Casnewydd NP19 7HF

**Simon Roberts**
**41.** Ysgol Gynradd Maesybryn, Pontypridd CF38 2NS

**Dr Llinos Jones**
**42.** Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin SA32 8DN

**Sharon Hope**
**43.** Ysgol Gynradd y Glais, Abertawe SA6 7JX

**Kerina Hanson**
**44.** Ysgol Gynradd Pennard, Abertawe SA3 2AD

**Dr Joe Cudd**
**45.** Ysgol Gynradd Pen Rhos, Llanelli SA15 2NG
**46.** Ysgol Pentip, Llanelli SA15 3BL

**Olwen Corben**
**47.** Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug CH7 1PS

**Catrin Thomas**
**48.** Ysgol Bro Preseli, Sir Benfro SA41 3QH

**Alison Ellis**
**49.** Ysgol Gynradd Maesyrhandir, Y Drenewydd SY16 1LH
**50.** Ysgol Gynradd Brynhafren, Amwythig SY5 9AT

**Trefor Jones**
**51.** Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun LL15 1EG

**Paul Keane**
**52.** Ffederasiwn Ysgol Gynradd Gymunedol Heol Blenheim, Cwmbrân NP44 4SZ
**53.** Ysgol Gynradd Coed Efa, Cwmbrân NP44 4TG

**Ian Gerrard**
**54.** Ysgol Aberconwy, Conwy LL32 8ED

**Sarah Coombes**
**55.** Ysgol Gynradd Llanisien Fach, Caerdydd CF14 6SS

**Richard Monteiro**
**56.** Ysgol Pen y Bryn, Conwy LL29 6DD

**Karen Wathan**
**57.** Ysgol Gynradd Danescourt, Caerdydd CF5 2SF

**Damian Beech**
**58.** Ysgol Gynradd Goetre, Merthyr Tudful CF47 9PB


**Huw Powell**
**59.** Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog, Caerdydd CF5 5QZ

**Karen Lawrence**
**60.** Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfaes, Powys LD3 8EB

**Jeremy Griffiths**
**61.** Prifysgol Bangor, Bangor LL57 2DG

**Janet Hayward**
**34.** Ysgol Gynradd Tregatwg, Y Barri CF63 2JS
**62.** Ysgol Gynradd Oak Field, Y Barri CF62 9DU

**Emma Coates**
**63.** Ysgol Gynradd Llanhari, Pontyclun CF72 9LQ








www.agaa.cymru
Ysbrydoli Arweinwyr
Inspiring Leaders




Nod Allweddol / Key Aim:







## Datblygu Arweinyddiaeth

Rydym yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i arweinwyr addysgol ddod at ei gilydd yn genedlaethol i gymryd rhan mewn sgyrsiau proffesiynol gyda chymheiriaid o bob sector addysgol i ddatblygu eu galluoedd proffesiynol, a theimlo eu bod wedi'u grymuso, eu hysbrydoli a'u hysgogi.

Yn ystod 2023-2024, mae arweinwyr addysgol yng Nghymru wedi manteisio ar ystod o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth. Mae ein gweithgareddau datblygu arweinyddiaeth yn cynnwys gweminarau fel Datgloi Arweinyddiaeth gydag Andy Adams MBE, Stuart Davies, Diana Osagie a'r Athro Ken Jones ac Datgloi Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda David Bartram OBE. Roedd ein cynadleddau yn archwilio lles arweinwyr addysgol, pwysigrwydd arweinyddiaeth a'r Cwricwlwm i Gymru gydag arweinwyr ac ymarferwyr o bob cwr o Gymru. Yn ogystal, cynhaliwyd digwyddiadau cydweithredol gyda'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) a'r Sefydliad Polisi Addysg (EPI) a'n partneriaid tair gwlad, Education Scotland ac Oide, Iwerddon.

Mae dros 2,500 o arweinwyr o bob cwr o Gymru wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau Datblygu Arweinyddiaeth yn 2023-2024.

## Ymgysylltu

Yn ystod 2023-2024, ymgysylltwyd ag arweinwyr drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau gwahanol ledled Cymru ac ar-lein. Roedd gennym stondin yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri a'r Sioe Addysg Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, cynhaliwyd digwyddiadau ar stondinau rhanddeiliaid a sefydliadau partner.

Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, cynhaliwyd tair trafodaeth banel yn ystod yr wythnos yn archwilio'r Gymraeg mewn Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y paneli yn cynnwys:

- **Dydd Mawrth 30 Mai 2023 – Y Gymraeg mewn Addysg**: Gareth Morgans (Cyfarwyddwr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Gaerfyrddin), Trefor Jones (Pennaeth, Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun), ac Ashok Ahir (Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cymwysterau Cymru).
- **Dydd Iau 1 Mehefin 2023 – Cwricwlwm i Gymru**: Jeremy Miles AS (Gweinidog y Gymraeg ac Addysg), Owen Evans (Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn), Emyr George (Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau, Cymwysterau Cymru), Clive Williams (Pennaeth, Ysgol Gymraeg Aberystwyth), Owain Gethin Davies (Pennaeth, Ysgol Dyffryn Conwy) a Tegwen Ellis (Prif Weithredwr, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru).
- **Dydd Gwener 2 Mehefin 2023 – Y Gymraeg mewn Addysg:** Owain Lloyd (Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Addysg a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru), David Jones (Cadeirydd y Bwrdd, Cymwysterau Cymru) a Mair Hughes (Pennaeth, Ysgol Penglais, Ceredigion).

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sicrhawyd cytundeb unigryw hefyd i gynnig cofrestru am ddim i staff addysg ledled Cymru i fynychu Uwchgynhadledd Addysg y Byd. Mae cynnwys o'n digwyddiadau hefyd wedi cael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau partner fel Cynhadledd Lles GwE ac mewn cyhoeddiadau allanol fel adroddiad thematig Estyn, 'Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol'.






## Mewnwelediad

Cyhoeddodd Cymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ddau adroddiad comisiwn yn ystod y flwyddyn sydd bellach yn llywio polisi ac ymarfer. Roedd un adroddiad yn canolbwyntio ar yr heriau a chyfleoedd o ran arweinyddiaeth a gyflwynir gan faes polisi Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu sgyrsiau eang eu cwmpas gydag uwch arweinwyr ledled Cymru. Edrychodd un arall ar brofiadau arweinwyr o ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol ac roedd yn cynnwys canfyddiadau arolwg cenedlaethol a gofnododd ymatebion gan fwy o'r 800 o arweinwyr. Mae tîm yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion yn yr adroddiadau.

Mae'r Ffederasiwn Cymdeithion wedi bod yn cydweithio ar blatfformau lles cymunedol ar gyfer arweinwyr addysgol, yn ogystal â gweithredu'r gefnogaeth 'Be Well, Lead Well' i benaethiaid.

Mae strategaeth lles arweinwyr addysgol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i gael ei llywio gan ein gweithgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r haenau addysgol gan gynnwys ysgolion, yr haen ganol, Llywodraeth Cymru yn ogystal ag academyddion yn y sector iechyd ac addysg a sefydliadau allanol fel Education Support.

## Lles

Cynhaliodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei phedwaredd gynhadledd Lles Arweinwyr Addysg flynyddol ym mis Ionawr 2024. Mynychwyd y digwyddiad ar-lein gan dros 100 o arweinwyr ac ymhlith y siaradwyr gwadd roedd Dr Kevin Palmer o Lywodraeth Cymru a gyflwynodd ddiweddariad polisi a Helen Kelly – awdur 'School Leaders Matter'. Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaeth panel ar thema Goruchwyliaeth fel strategaeth i gefnogi lles arweinwyr addysgol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Cymdeithion Carfan 5 wedi parhau i weithio ar eu comisiwn, 'Lles Arweinwyr Addysgol yng Nghymru: Eu hawliau', sy'n archwilio'r cysyniad o hawl arweinwyr addysgol yng Nghymru i les. Mae'r Cymdeithion wedi defnyddio grwpiau fel y grŵp strategaeth lles a'r gynhadledd i gael gafael ar adborth i lywio eu comisiwn.

## Datblygu'r Gweithlu

Cafodd adroddiad newydd, Recriwtio a Chadw Uwch Arweinwyr Ysgolion yng Nghymru, ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Roedd yr adroddiad, gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) gyda'r Sefydliad Polisi Addysg (EPI), yn adolygu data ystadegol cyfredol ar recriwtio a chadw penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol, ac yn cyflwyno data ansoddol newydd ar y rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig i ymgymryd â rolau arwain uwch, ac aros yn y rolau hynny. Awgrymodd awduron yr adroddiad amrywiaeth o awgrymiadau polisi ar gyfer mynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw sydd ar gynnydd. Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol bellach yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen â chanfyddiadau'r adroddiad.




## Partneriaethau

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn sefydliad bach sydd â chylch gwaith eang, ac mae'n rhaid iddo weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a sefydliadau partner i gyflawni ei amcanion. Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i ddarparu llais gwybodus ar gyfer y system addysg yng Nghymru a dylanwadu'n gadarnhaol ar waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a chyfrannu at y gwaith hwnnw. Cafodd wyth aelod newydd eu recriwtio i'r grŵp yn 2023 o sefydliadau traws-sector yng Nghymru.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn yr haen ganol, gan gynnwys Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Consortia Rhanbarthol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod cydweithio a phrosiectau ar y cyd, ac i gefnogi cydlyniad ar draws y sector addysg.

Ym mis Tachwedd 2023, gwahoddwyd y Prif Weithredwr, Tegwen Ellis, i fod yn aelod cyswllt cenedlaethol anrhydeddus o'r Ganolfan Ryngwladol Arweinyddiaeth mewn Addysg (CIRLE) newydd. Lansiwyd y Ganolfan ym mis Medi 2023 gyda chylch gwaith clir i ymgysylltu ag ysgolheigion rhyngwladol ym maes arweinyddiaeth addysgol er mwyn meithrin cyfleoedd newydd i gydweithredu, rhwydweithio ac ymgysylltu ag ymchwil arloesol. Drwy'r bartneriaeth hon, bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn cefnogi dealltwriaeth a gwybodaeth ddyfnach o arweinyddiaeth ac yn ehangu effaith ymchwil ar raddfa wirioneddol ryngwladol.

Yn ystod 2023/24, cyflwynwyd arddangosfa gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri mewn partneriaeth â Cymwysterau Cymru ac Estyn. Yn ystod yr Eisteddfod, cynhaliwyd tri digwyddiad ar ffurf panel ar y stondin yn cynnwys arweinwyr ysgolion, colegau ôl-16, sefydliadau haen ganol, swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, Jeremy Miles AS. Mae digwyddiadau fel y rhain yn parhau i gael effaith gadarnhaol iawn ar hunaniaeth brand yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gan ddatblygu cysylltiadau pellach â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol.



## Cymraeg 2050

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi ymrwymo i uchelgais Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg ac un o'n gwerthoedd yw 'gweithio gyda ac ar ran Cymru gyfan i helpu i gyflawni Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Yn 2020, aeth Cymdeithion o Garfan 2 ati i archwilio rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu'r weledigaeth hon ar gyfer Cymru, ac o ganlyniad datblygwyd adnodd hunanwerthuso i gefnogi'r Gymraeg mewn sefydliadau addysgol. Dros gyfnod o chwe mis, mae saith sefydliad rhanddeiliaid a Chymdeithion wedi treialu'r pecyn cymorth hunanwerthuso hwn yn eu lleoliadau er mwyn gweithredu eu gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ar lefel ysgol gyfan. Ym mis Mawrth 2024, cynhaliwyd digwyddiad i rannu'r arfer da hwn gyda'r cyfranogwyr eraill, Estyn, Consortia Rhanbarthol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i drafod y camau nesaf wrth ddatblygu'r gwaith hwn. Cytunwyd yn unfrydol ar bwysigrwydd y pecyn cymorth wrth symud ar hyd continwwm ieithyddol ac wrth fabwysiadu Bil y Gymraeg ac Addysg.

Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd proses sicrhau ansawdd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol fodiwl strategol i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg, dan arweiniad y Consortia Rhanbarthol yng Nghymru, yn dilyn cyfnod o ddatblygu a threialu gydag ysgolion a lleoliadau addysgol. Yn ogystal, rhannwyd cyllid y Llwybr Arloesedd â Ffa-la-la ym mis Hydref 2023 ar gyfer prosiect o'r enw Hwyliaith. Mae'r cwmni annibynnol hwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg i ysgolion ac mae wedi creu methodoleg unigryw sy'n defnyddio caneuon a gweithgareddau creadigol i wella'r gallu i siarad Cymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol o fewn y sefydliad ac wedi cyhoeddi polisi iaith Gymraeg ym mis Medi 2023 i sicrhau bod y Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol yn narpariaeth ehangach y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Credwn fod gallu cyfathrebu yn eich iaith fwyaf naturiol yn hanfodol bwysig. Yn unol â Safon 145 o Safonau'r Gymraeg, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth bum mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ein sefydliad.

## Gwrth-hiliaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu cenedl wrth-hiliol a chynhwysol, lle mae pob unigolyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang, yn gallu ffynnu a lle mae pawb yn cyfrannu at gynnydd Cymru. Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi croesawu'r weledigaeth hon ac wedi addo dod yn sefydliad gwrth-hiliol erbyn 2030.

Ym mis Mai 2023, ffurfiodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol grŵp llywio gwrth-hiliol i gynghori, cefnogi a herio ei gweledigaeth a'i chynnydd i wneud yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn sefydliad gwrth-hiliol. Daw aelodau'r grŵp o blith staff, aelodau'r bwrdd, cymdeithion ac arweinwyr addysgol o amrywiaeth o gefndiroedd.

Drwy gydol 2023/24, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi gweithio'n agos gyda sefydliad DARPL (dysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth). Ym mis Mehefin 2023, lluniodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol bartneriaeth â DARPL a sefydliadau haen ganol eraill i gyd-gynnal cynhadledd gwrth-hiliaeth gyntaf Cymru. Ers hynny, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi cymeradwyo darpariaeth DARPL ar gyfer uwch arweinwyr ac mae cynrychiolwyr DARPL wedi cefnogi'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i adolygu ei chanllawiau recriwtio ar gyfer Cymdeithion mewn ymgais i ddenu arweinwyr o gefndiroedd mwyafrifol byd-eang i'r rôl.

Ym mis Mawrth 2024, gwahoddwyd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i gynnal gweithdy yng nghynhadledd flynyddol y Black Leadership Group yn y Senedd, Bae Caerdydd. Cyflwynodd dau aelod o staff waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol hyd yma i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol erbyn 2030, gan rannu'r strategaethau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r amcan hirdymor.

## Datganiadau Ariannol


| Cyfrif elw a cholled am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Trosiant | 1,675,983 | 1,826,469 |
| Cost y gwerthiannau | (775,687) | (906,363) |
| Gwarged gros | 900,296 | (906,363) |
| Treuliau gweinyddol | (940,590) | (780,673) |
| Diffyg Gweithredu | (40,294) | 139,433 |

Roedd y canlyniadau uchod yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes gan y cwmni unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn ac eithrio'r canlyniadau uchod.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 dangosodd y cwmni ddiffyg ariannol o £40,294 (2023: gwarged o £139,433) ac roedd ganddo gronfeydd wrth gefn o £263,201 (2023: £303,495). Mae'r cwmni wedi ysgwyddo diffyg ariannol gan ei fod wedi defnyddio cyllid y flwyddyn flaenorol i gyflawni ei brosiectau. Mae'r cronfeydd wrth gefn o £263,201 hefyd wedi ymrwymo i brosiectau yn y dyfodol i gyflawni amcanion y sefydliad, gan sicrhau bod yr holl gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Nid yw'r diffyg ariannol na'r ffigwr wrth gefn yn cynrychioli balans arian parod, ond yn hytrach o ganlyniad i'r polisi adnabod incwm.

| Mantolen ar 31 mawrth 2024 | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | |
| Asedau diriaethol | 12,516 | 13,669 |
| **Asedau presennol** | | |
| Dyledwyr | 246,456 | 275,329 |
| Arian parod mewn banc ac mewn llaw | 24,538 | 31,651 |
| | **270,994** | **306,980** |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (20,309) | (17,154) |
| **Asedau net cyfredol** | 250,685 | 289,826 |
| **Asedau net** | 263,201 | 303,495 |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | |
| Cyfrif incwm a gwariant | 263,201 | 303,495 |
| Cyfanswm ecwiti | 263,201 | 303,495 |

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bach. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 7 Tachwedd 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:







agaa.cymru
nael.cymru